## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **4 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Polisi Diogelu Corfforaethol** |

**Pwrpas yr adroddiad:**

Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu diwygiedig Cymru.

Nawr mae angen cytuno ar y Polisi drwy'r broses ddemocrataidd.

**Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**

Y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu sy'n craffu ar y gweithgarwch a'r polisi Diogelu.

**Cefndir**

Mae diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn flaenoriaeth i Gyngor Sir Ceredigion, yn ogystal â sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn ar waith.

Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer pob Gwasanaeth yn y Cyngor ac yn nodi'r cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg, yn ogystal â'r dulliau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i wybod yn sicr ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol wedi'i ailsefydlu yn dilyn bwlch dros gyfnod pandemig Covid. Mae'r Grŵp wedi goruchwylio'r gwaith o ddrafftio'r Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig yn barod ar gyfer ei weithredu ac i fynd ag ef drwy'r broses ddemocrataidd.

Cafodd y fersiwn ddiwethaf o'r Polisi Diogelu Corfforaethol ei drafftio yn 2017 ac yn sail i'r polisi yr oedd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan gan gynnwys oedolion agored i niwed (2008). Cafodd Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu gweithredu yn 2019 ac maent wedi cael eu hymgorffori yn y polisi.

Mae'r polisi yn berthnasol i staff, Cynghorwyr, gwirfoddolwyr a phobl sy'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.**
Nac oes.

Mae'r polisi yn gynhwysol ac wedi'i lunio i ddiogelu pob grŵp o bobl waeth beth fo'u hoedran, hil, diwylliant, iaith, rhywedd, rhywioldeb, neu grŵp economaidd-gymdeithasol.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Cydweithio:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Cynnwys:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Atal:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Integreiddio:** | **Ddim yn berthnasol** |

**Argymhelliad:**

Cytunir ar y Polisi Diogelu Corfforaethol fel y ddogfen ddiffiniol i sicrhau bod Ceredigion yn sefydliad diogel ac yn cydnabod ei gyfrifoldebau i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

**Rheswm dros yr argymhelliad:**

Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn darparu fframwaith polisi i ddiogelu pobl sy'n cyflenwi gwasanaethau ar ran yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig yn defnyddio'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol.

**Enw Cyswllt:** Audrey Somerton-Edwards

**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Dyddiad yr adroddiad:** 22 Chwefror 2024

**Acronymau:** Dim